# Astudiaethau Achos Costau Byw

## Sut mae asiantaethau a phartneriaethau'n gwneud gwahaniaeth yn yr argyfwng costau byw

Ebrill 2024

Adeiladu Cymru Iachach
Building a Healthier Wales

## Adborth

Rydym yn croesawu adborth ar ddefnydd a defnyddioldeb ein cynnyrch. Cwblhewch yr arolwg canlynol ar ôl defnyddio'r adnodd hwn: https://forms.office.com/e/qCf92YLtnc


## Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i’r holl unigolion a gytunodd i rannu eu gwaith yn ogystal ag i’r gwirfoddolwyr a’r staff a redodd y prosiectau a nodir yma. Rydym hefyd yn ddiolchgar i gydweithwyr a rhwydweithiau sydd wedi ein helpu i adnabod y gwaith gwych sy’n digwydd ar yr ymateb costau byw ledled Cymru a’r DU.


## Awdur

Dr Deiniol Jones, Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Grŵp Cydgysylltu Creu Cymru Iachach

*© 2024 Grŵp Cydgysylltu Creu Cymru Iachach ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid nodi cydnabyddiaeth i grŵp Cydgysylltu Creu Cymru Iachach ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a’r gosodiad yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru*

*ISBN: 978-1-83766-309-5*

Wider Determinants of Health Unit
Health and Well-being Directorate
Public Health Wales
Number 2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF4 10BZ

# Cynnwys


Prif bwyntiau dysgu 4

Tabl cryno 6

Cefndir a dulliau 8

Astudiaeth achos 1 - Peilot incwm Adeiladu Cymru Iachach 10
*Uchafu incwm i bobl ifanc (Incwm a dyled)*

Astudiaeth achos 2 - Cynghrair Ysbytai Plant 15
Gostwng cyfraddau 'Heb Fynychu' ar gyfer apwyntiadau (Iechyd a gofal)

Astudiaeth achos 3 - Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf 19
*Ymgyrch ychwanegu at gredyd pensiwn a chymorth i bobl hŷn (Incwm a dyled; Iechyd meddwl a llesiant)*

Astudiaeth achos 4 - Ysbyty i gartref iachach 23
*Rhaglen cymorth rhyddhau o ysbyty (iechyd a gofal)*

Astudiaeth achos 5 - Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro 27
*Mannau cynnes a hybiau cymunedol (Bwyd, ynni a thai)*

Astudiaeth achos 6 - Rhewgelloedd Cymunedol Menter Môn 31
*Pantris bwyd cymunedol lleol (Bwyd, ynni a thai)*

Astudiaeth achos 7 - Cymdeithas Tai Merthyr Tudful 35
*Parseli bwyd a dosbarthiadau cymunedol (Bwyd, ynni a thai; Iechyd meddwl a llesiant)*

Astudiaeth achos 8 - Cyllidebu cyfranogol yng Ngwent 40
*(Iechyd meddwl a llesiant)*

Astudiaeth achos 9 - Prosiectau bwyd Bro Morgannwg 44
*Pantris bwyd cymunedol a dosbarthiadau (Bwyd, ynni a thai)*

# Prif bwyntiau dysgu

Clywsom gan ystod o bartneriaid ac rydym wedi amlygu naw enghraifft o waith diweddar yn ymwneud â'r argyfwng costau byw ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig yn y ddogfen hon.

Ymdrinnir â phob un o'r prif themâu (bwyd, ynni a thai; incwm a dyled; iechyd meddwl a llesiant; iechyd a gofal) o'n huwchgynhadledd Costau Byw Cymru Gyfan a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023. Mae'r gwaith a amlygwyd yn cynnwys enghreifftiau ar lefel leol/rhanbarthol a chenedlaethol ac mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae'n cwmpasu ehangder Cymru a thu hwnt ac yn cynnwys amrywiaeth o asiantaethau a phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, y GIG, busnesau preifat, a'r sector gwirfoddol/ cymunedol.

Ymhlith y ffactorau a sicrhaodd fuddion, cafwyd y canlynol:

- Defnyddio cynlluniau a dyluniadau syml gyda chynllunio priodol, gan gynnwys defnyddio cydleoli a phwyntiau cyswllt sengl
- Cynyddu incwm drwy adnoddau ar lefel y DU
- Gwaith amlasiantaeth a chydgysylltu drwy gyrff rhanbarthol, megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus neu grwpiau llywodraeth leol
- Ymgorffori'r sector gwirfoddol/cymunedol, busnesau lleol preifat, a sefydliadau GIG lleol
- Cydgynhyrchu cymunedol gwirioneddol sy'n ymgorffori anghenion a data lleol ac yn nodi targedau clir ar gyfer gweithredu
- Defnyddio dulliau peilot a gwerthuso ac addasu'r rhaglenni perthnasol yn ailadroddus, gan eu hehangu os ydynt yn llwyddiannus
- Defnyddio dulliau wedi'u targedu lle bo'n briodol, megis canolbwyntio ar blant/pobl ifanc, ardaloedd difreintiedig neu bobl oedrannus.
- Bod yn hyblyg ac ymaddasol pan fydd heriau logistaidd o ran cyflenwi'n anochel

- Gosod gwerthoedd clir, megis Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyrdd o Weithio
- Cynllunio cyfathrebiadau ar ymgyrchoedd a sicrhau bod sianeli negeseuon a hygyrchedd yn cael eu cyfrif
- Cynllunio gwerthusiadau ymlaen llaw, gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion a mesur data ansoddol a meintiol, yn enwedig gwerth cymdeithasol ac elw ar offer/metrigau buddsoddi

Ar y llaw arall, roedd y prif heriau yn cynnwys:

- Cyfnodau ariannu byr yn nodweddiadol ac ansicrwydd cysylltiedig
- Gorddibyniaeth ar adborth ansoddol syml ar gyfer gwerthusiadau
- Esgeuluso mesur effaith a phwyntiau dysgu mewn rhai achosion
- Problemau a geir yn aml pan fydd sawl system TG a gweinyddol yn cael eu defnyddio mewn prosiectau.

# Tabl cryno

| Teitl | Ymyriad | Lleoliad | Thema | Partneriaid | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Peilot Adeiladu Cymru Iachach | Peilot Uchafu incwm | Cwm Taf Morgannwg; Wedi'i dargedu ar bobl ifanc | Incwm a dyled | Cyngor Ar Bopeth; Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol | Mwy o ymgysylltu, gydag enillion incwm sylweddol i gleientiaid |
| Lleihau cyfraddau 'heb fynychu' Cynghrair Ysbytai Plant | Dadansoddi data ac ymyriadau peilot, gan gynnwys cymorth trafnidiaeth | Ysbytai plant ar draws y DU | Iechyd a gofal | Cynghrair Ymchwil; Elusennau Ysbytai; GIG | Ymyriadau arbed costau cymorth trafnidiaeth a gweinyddol i leihau cyfraddau 'heb fynychu' |
| Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf | Ymgyrch ychwanegu at bensiynau; cyngor iechyd a llesiant | Awdurdodau lleol lluosog; targedu pobl hŷn | Incwm a dyled; Iechyd meddwl a llesiant | Awdurdodau lleol; elusen genedlaethol; GIG; heddlu | Cynhyrchu dros £10 miliwn mewn budd-daliadau heb eu hawlio; dros 300,000 o ganllawiau printiedig wedi'u dosbarthu |
| Ysbyty i gartref iachach | Cefnogaeth rhyddhau o ysbytai, gan gynnwys gwelliannau cartref a chyngor | Ysbytai ar draws Cymru | Iechyd a gofal | Ysbytai; busnesau lleol; gofal cymdeithasol | Gostyngiadau sylweddol o ran hyd arhosiad ac aildderbyn; cael mynediad at gyllid tai sylweddol |
| Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro | Mannau cynnes a hybiau cymunedol | Cyngor gwirfoddol sirol; mannau cymunedol lleol ar draws y sir | Bwyd, ynni a thai | Cyngor gwirfoddol; gwirfoddolwyr lleol; arianwyr rhanbarthol a chenedlaethol | Cynnal 28 o hybiau cymunedol; talebau ynni, cyflenwad tanwydd, peiriannau ffrio aer, cyngor ar gynyddu incwm a phrydau poeth yn cael eu dosbarthu |

| Teitl | Ymyriad | Lleoliad | Thema | Partneriaid | Effaith |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllidebu cyfranogol yng Ngwent | Cyfranogiad cymunedol mewn ariannu mesurau costau byw | Cymunedau lleol ar draws y rhanbarth | Iechyd meddwl a llesiant | Awdurdodau lleol; bwrdd gwasanaethau cyhoeddus; elusennau | Sefydlu cyllideb gyfranogol yn llwyddiannus a derbyn adborth cadarnhaol |
| Rhewgelloedd Cymunedol Menter Môn | Pantris bwyd cymunedol am ddim yn defnyddio rhewgelloedd gyda gwirfoddolwyr lleol | Cymunedau gwledig lleol ar draws Ynys Môn | Bwyd, ynni a thai | Busnesau lleol; awdurdod lleol; gwirfoddolwyr lleol | Dosbarthu miloedd o brydau bwyd yn llwyddiannus; adborth positif gan y defnyddwyr gwasanaeth |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | Talebau gwresogi, gwersi coginio, ac ailddosbarthu bwyd dros ben | Tenantiaid cymdeithasau tai ym Merthyr Tudful | Bwyd, ynni a thai | Cymdeithas dai; elusennau; busnesau lleol | Gwerth cymdeithasol uchel yn cael ei ddangos trwy hyfforddiant ac ymarfer corff ysgafn; dosbarthiad bwyd sylweddol |
| Prosiectau bwyd Bro Morgannwg | Pantris bwyd cymunedol (rhowch beth allwch chi) a dosbarthiadau | Cymunedau lleol ar draws y sir | Bwyd, ynni a thai | Awdurdod lleol; elusennau lleol; ysgolion | Cefnogi cannoedd gyda pharseli bwyd, cyngor costau byw a dosbarthiadau |

## Cefndir a dulliau

Mae'r prosiect hwn yn rhan o ymateb Adeiladu Cymru Iachach (ACI) i'r argyfwng costau byw yng Nghymru, gan ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus. Mae hyn yn dilyn cyhoeddi Argyfwng costau byw yng Nghymru: drwy lens iechyd cyhoeddus gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac uwchgynhadledd lwyddiannus Costau Byw Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2023. Nododd y rhai a fynychodd ein huwchgynhadledd yn glir bod angen cyfres o astudiaethau achos i rannu arfer gorau yn gyflym ar ymateb i'r argyfwng costau byw mewn modd cynaliadwy.

Roedd ein henghreifftiau yn cynnwys:

- Cynllun peilot uchafu incwm gan ACI [Incwm a Dyled]
- Offer 'Heb Fynychu' a darpariaeth bwyd i rieni gan Gynghrair Ysbytai Plant [Iechyd a Gofal]
- Awdurdod Cyfun Manceinion, Cyngor Stockport a Chyngor Trafford (Ymgyrch ychwanegu at gredyd pensiwn) [Incwm a Dyled]
- Ysbyty i Gartref Iachach (cymorth rhyddhau) [Iechyd a Gofal]
- Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro (Mannau/hybiau cynnes) [Bwyd, ynni a thai; Iechyd meddwl]
- Cyllidebu cyfranogol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent [Iechyd meddwl]
- Menter Môn, Ynys Môn (rhewgelloedd cymunedol) [Bwyd, ynni a thai]
- Cymdeithas Tai Merthyr Tudful [Bwyd, ynni a thai]
- Prosiectau bwyd Bro Morgannwg yn Llanilltud Fawr a Chongl Cadog (Pantris bwyd a dosbarthiadau cymunedol) [Bwyd, ynni a thai]

Dulliau

Mae astudiaethau achos yn caniatáu casglu ffynonellau unigol neu luosog o ddata/gwybodaeth i ddeall sut mae ymyriadau'n cael eu gweithredu o fewn cyd-destunau amrywiol (Shannon et al., 2021). Cynhaliwyd astudiaeth achos esboniadol ar gyfer y gwaith hwn (Yin, 2003). Ein cwestiwn ymchwil oedd "sut mae cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r sector gwirfoddol/cymunedol wedi effeithio ar y canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw?". Defnyddiwyd offeryn ECLIPSE [Wildridge & Bell, 2002] ar gyfer echdynnu data, a nodwyd a dewiswyd astudiaethau achos ôl-weithredol yn dilyn chwiliad eang o wefannau allweddol ac awgrymiadau gan bartneriaid.

Defnyddiwyd y meini prawf canlynol yn y dewis cychwynnol o achosion:

- Ymryriad(au) yn y DU a gyflenwyd yn y 24 mis diwethaf
- Enghreifftiau yn cyd-fynd â'r pedair thema o'n huwchgynhadledd costau byw (iechyd a gofal; bwyd, ynni a thai; incwm a dyled; iechyd meddwl a llesiant)
- Gall yr enghraifft ddangos effaith fesuradwy
- Perfformiad gwerthuso drwy ddefnyddio fframwaith RE-AIM wedi'i addasu [cyf]

Yna casglodd tîm y prosiect wybodaeth ychwanegol am y canlynol:

- Natur yr ymyriad (Beth?)
- Pa ffactorau allweddol a sicrhaodd y ddarpariaeth (Sut?)
- Pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r ymyriad (Beth felly?)
- Pa ddysgu sydd wedi digwydd (Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?)
- Gwybodaeth bellach megis dyfyniadau, delweddau a dolenni i'r gwaith

# Astudiaeth Achos 1

## Peilot uchafu incwm Adeiladu Cymru Iachach yng Nghwm Taf Morgannwg (incwm a dyled)

### Beth?

Yn dilyn pandemig Covid-19, nodwyd pryder penodol ynghylch pobl ifanc 16-24 oed (grŵp yr effeithiwyd arnynt yn arbennig gan ansicrwydd swydd) a oedd heb ddigon o arian ac adnoddau i sicrhau iechyd. Targedwyd hyn felly gan Grŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach strategol, amlasiantaeth, sy'n cynnwys uwch arweinwyr ar draws pob sector yng Nghymru. Mae Adeiladu Cymru Iachach yn fenter barhaus, a sefydlwyd ar gyfer yr elfen atal o gynllun iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor Cymru.

Yn 2021, bu'n bosibl i'r grŵp cydgysylltu ddefnyddio tanwariant o'r gronfa blynyddoedd cynnar ac atal cenedlaethol i dreialu dull newydd o uchafu incwm. Yn benodol, roedd y peilot yn rhaglen allgymorth a phartneriaeth dargededig (yn defnyddio hysbysebu, y cyfryngau ac atgyfeiriadau) i ddarparu cyngor ariannol a chynyddu incwm. Yn ogystal â thargedu demograffig penodol, cafodd y rhaglen ei thargedu hefyd ar fwrdd iechyd penodol â lefelau hysbys o amddifadedd uchel.

Helpodd y rhaglen i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth presennol Advicelink Cymru, sef gwasanaeth Cyngor ar Bopeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i gynllunio i helpu'r bobl sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau cynghori, yn enwedig y rhai na fyddent fel arfer yn ceisio cyngor. Yn eu tro, roeddent yn darparu cyngor ar incwm, cyflogaeth a budd-daliadau i'r rhai oedd ei angen.

## Sut mae'n berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Lluniwyd y prosiect hwn fel peilot, gyda gwerthusiad cadarn (gan gynnwys ardal gymharu) wedi'i gynllunio o'r cychwyn cyntaf. Adeiladodd y prosiect ar bartneriaethau presennol a gwasanaeth sefydledig Advicelink Cymru fel sylfaen. Tynnodd ar gysylltiadau a strwythurau'r sector gwirfoddol a chymunedol i sefydlu partneriaethau newydd a sbarduno'r nifer oedd yn manteisio arnynt drwy hysbysebu ac atgyfeirio. Roedd hefyd yn gallu cyfeirio at bartneriaid yn eu tro lle'r oedd hynny'n briodol ac, yn olaf, ceisiodd gael cymorth ariannol ar lefel y DU.

Roedd yn ymateb i angen clir penodol a grŵp targed (pobl 16-24 oed) ac effeithiodd ar ein thema incwm a dyled. Yn annisgwyl, un o fanteision y gwaith oedd darparu cyngor iechyd meddwl mewn ymateb i angen oedd yn dod i'r amlwg, gan adlewyrchu'r cydadwaith rhwng cyllid a llesiant meddwl. Roedd y gwaith hefyd yn cyffwrdd â Gwaith Teg, sy'n thema ehangach ym mhenderfynyddion ehangach iechyd.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Yn yr arolwg cleientiaid ardal beilot, roedd 53% angen cyngor ar fudd-daliadau a chredydau treth ac roedd 1 o bob 5 angen cyngor ar ddyled a thai. Roedd cyfweliadau manwl yn atgyfnerthu'r anawsterau a wynebodd bobl ifanc yn sgil costau cynyddol, incwm is a sgiliau cyllidebu gwael. Fe wnaeth 20% o bobl ifanc yn yr ardal beilot hunan-gofnodi problem iechyd meddwl, yr un cyfran ag ar draws Cymru. Mae hyn yn amlygu problem fawr yn y grŵp oedran hwn.

Ystyriwyd bod y cynghorwyr yn broffesiynol, yn gyfeillgar, yn ddeallus ac yn wrandawyr da. Roeddent yn gallu meithrin perthnasoedd da gyda chleientiaid ifanc ac roedd 90% o gleientiaid yn gweld y gwasanaeth yn ddefnyddiol. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae niferoedd cleientiaid o unrhyw oedran wedi codi yn yr ardaloedd peilot (77%) ac yn yr ardaloedd cymharol (19%). Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at yr ymyriad fel gyrrwr cynnydd uwch yn y nifer sy'n manteisio yn yr ardal beilot, er na ellir eithrio ffactorau eraill a all fod yn cyfrannu at y gwahaniaeth hwn.

Cafodd 153 o gleientiaid ifanc yn yr ardal beilot godiad mewn incwm (cyfanswm cynnydd incwm o £408,652), dilewyd dyledion 5 ohonynt (£38,749), cafodd 258 ad-daliadau (£13,438) a chafodd 19 aildrefnu eu taliadau (£52,447). Dywedodd 89% eu bod yn debygol o gysylltu â Chyngor ar Bopeth eto pe bai angen cymorth arnynt yn y dyfodol.

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Cafodd y peilot fudd o adeiladu ar y seilwaith presennol a model syml, gan gynnwys un gronfa gyngor gyda darparwr arbenigol sefydledig, oedd â chanlyniadau rhagorol. Roedd y prosiect yn cynnwys gwerthusiad wedi'i gynllunio'n dda o'r dechrau, gyda mecanwaith cymharu priodol. Roedd y peilot hefyd wedi elwa o botensial uchel y grŵp targed, gyda llawer o bobl ifanc a fyddai'n elwa o'r gwasanaeth heb glywed amdano o'r blaen. Yn olaf, roedd gallu'r fenter i sefydlu partneriaethau anffurfiol yn gyflym o fewn y gymuned a'r sector cymunedol hefyd yn ddefnyddiol.

Er gwaethaf yr angen amlwg, nid oedd yr heriau amser ac arian yn caniatáu ymgysylltiad rhagweithiol da â phobl ifanc a datblygu partneriaethau.

Roedd heriau cyfathrebu a monitro yn ymwneud ag amseru a phwysau amser, ac mae angen codi ymwybyddiaeth y gall Cyngor ar Bopeth gefnogi pobl ifanc gyda'r materion a nodwyd yn y cynllun peilot hwn.

Bydd prosiect tymor hwy ac amseriad ffrydiau ariannu yn cael eu hystyried yn y dyfodol ochr yn ochr â threfniadau partneriaeth mwy ffurfiol a rhyngweithiol. Bydd brandio a hyrwyddo Cyngor ar Bopeth hefyd yn cael eu hystyried o ran sut maent yn berthnasol i bobl ifanc, gyda chyfryngau cymdeithasol yn cael eu nodi fel sianel glir ar gyfer y dyfodol. Yn olaf, bydd offer monitro a gwerthuso ymgyrchoedd yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.

## Gwybodaeth bellac

“Byddwn yn ei argymell 100% rhagor nag unrhyw help arall y byddai rhywun yn ceisio ei gael. Gall pobl fy oedran i fod yn weddol amheus o chwilio am help fel hyn, neu efallai mai naïf ydyn nhw’n gyffredinol. Rwy'n meddwl y gallai pobl fy oedran i feddwl nad oes dim y gallent ei wneud ynghylch eu sefyllfa. Nid ydynt yn gwybod, mewn gwirionedd. Ond byddwn yn dweud 100% wrth unrhyw un o fy oedran i mai’r bobl orau i gysylltu â nhw yw Cyngor ar Bopeth, oherwydd ni waeth pa help y maen nhw’n meddwl allai fod ar gael, os na allant eich helpu, gallant eich pwyntio i'r cyfeiriad cywir”

https://rhwydwaithiechydcyhoeddus.cymru/Testun/adeiladu-cymru-iachach/


Are you aged 18-24?
Do you need advice on which benefits you can claim?
Do you need financial support and guidance?
Are you struggling with debts?
Citizens Advice Merthyr Tydfil can help
Telephone advice - 01685 382188
For a local advice appointment or for any ongoing queries, please contact our admin line.
Email advice - advice@citizensadvicemt.org.uk
For advice via email, contact our advice email address.
Universal Credit - 08000 241 220
For help claiming Universal Credit, call our Help to Claim team.
Advice online
Our website www.citizensadvice.org.uk is available to you at any time.
cyngor ar bopeth
citizens advice
Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil


Citizens Advice RCT @RCTCAB · Feb 16
Aged 16-24
Our team can help you to make sure you're getting all of the money you should be.
Call or email us for more info.
Are you aged 16 - 24?
Do you need support and advice to help ensure you are having all of the income you are entitled to?
Call or email us for an appointment.
Phone number: 01443 409284
Email address: Enquiries@carct.org.uk
cyngor ar bopeth
citizens advice
Rhondda Cynon Taff
2

# Astudiaeth Achos 2

## Lleihau cyfraddau 'Heb Fynychu' (WNB) ac ymdrin â thlodi bwyd teuluoedd gan y Gynghrair Ysbytai Plant (Iechyd a gofal)

### Beth?

Mae'r Gynghrair Ysbytai Plant yn dod â 13 o ysbytai pediatrig mwyaf Cymru a Lloegr ynghyd, gan ymgymryd â nifer o brosiectau a chynlluniau a ariennir. Mae dwy enghraifft ddiweddar yn cynnwys cynlluniau i leihau cyfraddau WNB, a mynd i'r afael â thlodi bwyd teuluol yn ystod arhosiadau ysbyty.

Ar gyfer y cyntaf, defnyddiodd y cynllun ddata lleol ar y cyd â dysgu peirianyddol i dreiddio i lawr i wahaniaethau mewn cyfraddau WNB rhwng y grwpiau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig o blant. Arweiniodd hyn wedyn at ddatblygu a dewis amrywiaeth o ymyriadau peilot lleol, wedi'u targedu at y grwpiau mwyaf difreintiedig, a gafodd eu mesur wedyn o ran eu heffaith barhaus. Roedd yr ymyriadau'n cynnwys cymorth gyda thrafnidiaeth, galwadau cyn-glinig gweinyddol, pyrth cleifion rhyngweithiol, galwadau cyn-clinig gan glinigwyr, ac apwyntiadau yn yr ysgol.

Ar gyfer yr olaf, crëwyd a darparwyd cynlluniau talebau bwyd/prydau bwyd mewn 9 safle ysbyty a oedd yn galluogi staff clinigol i ddarparu prydau am ddim/gyda chymhorthdal ar y safle i rieni/gwarcheidwaid mewn angen, gan arbed costau sylweddol i'r cartref.

## Sut mae'n berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Adeiladodd y gwaith ar y bartneriaeth gofal iechyd sefydledig, gyda chysylltiadau cryf â'r byd academaidd a'r sector gwirfoddol/ cymunedol. Gwnaeth ddefnydd helaeth o dechnoleg ddigidol fodern a data lleol, a defnyddiwyd gwerthusiad parhaus o'r cychwyn cyntaf. Ceisiodd hefyd fynd i'r afael ag angen hysbys, a gwnaeth hynny drwy lens tegwch, gan ganolbwyntio ar grwpiau difreintiedig.

Yn benodol, roedd yn ymdrin â'r thema iechyd a gofal, ond drwy ddefnyddio offer a oedd yn canolbwyntio ar gymorth ariannol a'r argyfwng Costau Byw.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Yn gyffredinol, gostyngwyd cyfraddau WNB o 52% mewn grwpiau targed, gyda chynnydd pellach o 17% mewn canslo ymlaen llaw. Mae canslo apwyntiadau ymlaen llaw yn fuddiol yn y pen draw gan eu bod yn caniatáu i'r slotiau apwyntiad perthnasol gael eu hailddefnyddio. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys budd cost o ~£5 am bob punt a fuddsoddwyd ar gyfer ymyriadau cymorth trafnidiaeth, a £2 am bob punt a fuddsoddwyd ar gyfer galwadau ffôn cyn-clinig gan weinyddwr i atgoffa rhieni am yr apwyntiad a chynnig ail-archebu'r apwyntiad os oedd angen. Ni nodwyd buddion ar yr un raddfa ar gyfer y mathau eraill o ymyriadau. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r holl ymyriadau.

Ar gyfer y cynllun talebau bwyd/darparu prydau bwyd, adroddwyd adborth ansoddol cadarnhaol ar lesiant gofalwyr a pharhad gofal, yn ogystal â manteision i gyllid y cartref.

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd


Cafodd y cynllun fudd o allu defnyddio rhwydwaith ymchwil a oedd yn bodoli eisoes, a oedd yn gallu cynorthwyo'r prosiect. Cafodd fudd pellach o ddefnyddio arweinwyr lleol cryf a oedd yn gefnogol i'r cynlluniau, a rhoi ffocws clir ar dlodi a lleihau cyfraddau WNB gan bwysleisio ffocws a rhesymeg arbed costau a thegwch. Roedd defnyddio data lleol a mesuriadau parhaus yn allweddol i gynhyrchu canfyddiadau pwysicaf yr astudiaeth a chefnogi'r ddadl i barhau â'r ymyriadau, yn enwedig o ran cymorth trafnidiaeth. Roedd mynegi'r canlyniadau mewn termau cost a budd hefyd yn helpu i ennyn cefnogaeth ac ymrwymiadau parhaus gan randdeiliaid. Cyfeiriwyd at lawer o'r galluogwyr hyn yn ein huwchgynhadledd.

Ymhlith y rhwystrau, cafwyd amserlen gyflym a liniarwyd yn rhannol gan ddyluniad syml a chyfathrebu cyflym, clir. Roedd gweithrediad ac argaeledd data lleol yn amrywio'n sylweddol gyda phroblemau TG yn gyffredin, ond sicrhaodd arweinyddiaeth leol a chefnogaeth i'r prosiect gan y rhwydwaith y gellid gwneud addasiadau effeithiol. Yn ddelfrydol, byddai cynlluniau peilot wedi rhedeg yn hirach gyda mwy o gynllunio ôl-beilot gan fod ymrwymiadau am gyllid i'r dyfodol neu arian cyfatebol wedi bod yn anodd mewn rhai achosion.

## Gwybodaeth bellach

"Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i mi a fy mhlentyn, gan fy mod wedi gallu aros a helpu i gefnogi fy mhlentyn ar ei ddiwrnodau anoddaf a mwyaf gwael gan nad wyf yn teimlo'n llwglyd ac yn gallu rhoi gwell cefnogaeth. Mae hyn hefyd wedi sicrhau nad wyf wedi gorfod mynd i ddyled i fforddio bwyta tra bod fy mhlentyn yn aros yn yr ysbyty ac na allaf i weithio" - *Rhiant*

*https://childrenshospitalalliance.co.uk/our-work/*


Just Meals
Regular
Regular
Gluten Free
Vegetarian
Vegetarian

# Astudiaeth Achos 3

## Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, Cyngor Stockport a Chyngor Trafford: Ymateb dinas-ranbarth i gostau byw (Incwm a dyled; Iechyd meddwl a llesiant)

### Beth?

Mae hwn yn grŵp ymateb costau byw misol sy'n dod â mwy na 50 o bobl ynghyd o bob rhan o'r ddinas-ranbarth – gan gynnwys swyddogion y cyngor, darparwyr tai, yr heddlu a'r sector gwirfoddol – i rannu arfer da, codi materion ar lawr gwlad ac arddangos rhywfaint o'r cymorth sydd ar gael. Mae bod yn oed-gyfeillgar yn 'edau aur' sy'n rhedeg trwy'r gwaith gyda dull dinas-ranbarth yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys gweithio'n agos gyda'r GIG, yr heddlu, a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cynhyrchwyd canllaw printiedig 'Winterwise' mewn partneriaeth ag elusen genedlaethol gyda mewnbwn gan bartneriaid lleol (cynghorau, y GIG, yr heddlu, tân ac achub) a thrigolion hŷn. Dosbarthwyd 362,000 o gopïau Saesneg gan gynghorau, gwasanaethau ambiwlans, darparwyr tai, fferyllfeydd, trafnidiaeth, a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Gosodwyd y llyfryn hefyd mewn mannau lleol, megis llyfrgelloedd ac archfarchnadoedd, gyda fersiynau hawdd eu darllen, sain, digidol, iaith arwyddion Prydain, Bengali ac Wrdw.

Cyflwynwyd ymgyrch ychwanegu at bensiynau hefyd dros nifer o flynyddoedd ym Manceinion Fwyaf. Cynigiwyd adnoddau printiedig am ddim i sefydliadau ac i staff a gwirfoddolwyr fynychu sesiwn hyfforddi awr am ddim ar-lein gydag Independent Age ar Gredyd Pensiwn a Lwfans Gweini.

Defnyddiwyd yr adnoddau mewn cymdogaethau gan gynghorau, darparwyr tai a grwpiau cymunedol, gan gynnwys sesiynau galw heibio i grwpiau cymunedol, curo drysau a ffonio. Rhoddwyd pecynnau data i gynghorau lleol gyda gwybodaeth ar lefel ward yn amcangyfrif nifer yr hawlwyr credyd pensiwn i wardiau targed. Dosbarthodd rhai cynghorau becynnau llesiant gaeaf hefyd i drigolion hŷn a ryddhawyd o'r ysbyty yn ddiweddar, ac ymrwymwyd i fod yn gyflogwyr cyflog byw gwirioneddol.

Roedd yr awdurdod cyfunol yn gweithio mewn partneriaeth â'r elusen genedlaethol Independent Age, a ariannodd argraffu hyd at 100,000 o daflenni wedi'u brandio ar y cyd, Don't Miss Out, a ddosbarthwyd ar draws y 10 ardal cyngor ym Manceinion Fwyaf. Anelwyd y taflenni ar bobl hŷn, eu teulu a'u ffrindiau, a gweithwyr rheng flaen, ac roeddent yn cyfeirio pobl at Linell Gymorth Independent Age ac at ganllawiau gwybodaeth am ddim Independent Age ynglŷn â hawliau ariannol hwyrach mewn bywyd. Gyda chapasiti gwasanaethau cynghori ar draws Manceinion Fwyaf yn gyfyngedig iawn, cytunodd ALlau i hyrwyddo Llinell Gymorth Independent Age a'u gwefan fel y prif bwyntiau cyswllt. Argraffwyd negeseuon ymgyrchu hefyd ar 250,000 o fagiau papur fferyllfeydd mewn ardaloedd targed, lle nad oedd credyd pensiwn yn cael ei hawlio gan lawer.

## Sut mae'n berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Mae'r dull cyffredinol yn adlewyrchu enghraifft dda o waith partneriaeth amlasiantaeth, sy'n cynnwys sefydliadau statudol ac elusennau. Roedd yn cynnwys darparu gwybodaeth i grwpiau agored i niwed cyn y gaeaf trwy adnodd ataliol, wedi'i gyd-gynhyrchu, a oedd yn helpu i liniaru pwysau costau byw yn ogystal â derbyniadau posibl i'r ysbyty.

Yn benodol ar incwm a dyled, mae Credyd Pensiwn yn arian ychwanegol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a gynlluniwyd i helpu gyda chostau byw dyddiol i bobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth sydd ar incwm isel. Ar gyfer pobl hŷn, gallai cais llwyddiannus am Gredyd Pensiwn gynyddu i £3,300 y flwyddyn yn ychwanegol i helpu gyda chostau byw, gyda hyd yn oed dyfarniadau Credyd Pensiwn bach yn rhoi cymhwyster i fudd-daliadau eraill, gan gynnwys costau tai, y dreth gyngor, a biliau gwresogi. Gyda chostau byw yn cynyddu, mae hyrwyddo Credyd Pensiwn yn ffordd allweddol y gall Cymunedau Oed-Gyfeillgar gefnogi oedolion hŷn i fyw'n dda.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Dosbarthwyd dros 300,000 o gopïau printiedig o lyfryn Winterwise gydag adborth cadarnhaol gan drigolion hŷn ar eu cynnwys a'u hygyrchedd, a chafodd y tudalennau gwe perthnasol hefyd filoedd o ymwelwyr unigryw. Roedd hyd yr ymgyrch pensiwn atodol a Winterwise yn cyd-ddigwydd â £10miliwn ychwanegol a gynhyrchwyd mewn buddion blynyddol heb eu hawlio, gyda'r enillion mwyaf yn dod o fuddion pasbort sy'n cyd-fynd â chredyd pensiwn.

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Roedd gwerthusiadau o ymgyrchoedd blaenorol yn werthfawr iawn gyda gwersi penodol yn cynnwys pwysigrwydd cyd-gynhyrchu adnoddau, defnyddio sianeli cyfathrebu lluosog (gan gynnwys deunyddiau printiedig), ac ystyried hygyrchedd a chynhwysiant digidol unrhyw wybodaeth a ddarparwyd. Roedd y gwerthusiadau hyn o ansawdd uchel, gan ddeillio o bartneriaeth ag adran prifysgol leol.

Roedd gweithio gydag elusen genedlaethol sefydledig sy'n arbenigo mewn gwybodaeth a chyngor a'r gallu i ddarparu hyfforddiant hefyd yn ased. Cafodd y prosiect hefyd fudd o drefniadau gweithio partneriaeth a rhwydwaith presennol Canolfan Heneiddio Manceinion Fwyaf ac ymrwymiadau hirdymor i ddulliau gweithredu sy'n ystyriol o'r ddinas-ranbarth ac sy'n oed-gyfeillgar. Hefyd roedd y partneriaethau presennol yn gallu sicrhau bod data lleol o ansawdd uchel ar gael i'w ddefnyddio.

Cydnabuwyd bod anawsterau yn dal i fod o ran sicrhau lledaeniad daearyddol da a gwastad ar draws y ddinas-ranbarth, gydag adnoddau ar gael a lefelau amrywiol o ymrwymiad rhwng awdurdodau lleol. Mae gwerthusiad gyda gwersi pellach ar y gweill ar gyfer y gwaith diweddaraf hwn.

## Gwybodaeth bellach

"Roedd y cylchgrawn yn llawn gwybodaeth ac yn anfon y neges nad oes disgwyl i hen bobl eistedd gartref a phydru byw." - *Defnyddiwr gwasanaeth*

*https://www.local.gov.uk/case-studies/greater-manchester-combined-authority-stockport-council-and-trafford-council-city#pension-top-up-campaign-*



# Astudiaeth Achos 4

## Ysbyty i gartref iachach (Iechyd a gofal)

**Beth?**

Dechreuodd y rhaglen hon fel menter ysbyty sengl yn 2019 ac ers hynny mae wedi esblygu'n bolisi cenedlaethol yn dilyn peilot tri mis llwyddiannus. Mae bellach yn derbyn cyfuniad o gyllid byrddau iechyd lleol, cyllid integreiddio rhanbarthol a chymorth uned gyflenwi'r GIG, ac mae ar gael mewn 17 o ysbytai ar draws pum bwrdd iechyd. Y nod yw cefnogi staff a chleifion gyda rhyddhau cyflymach a diogel; gwella llif cleifion drwy'r ysbyty; a lleihau aildderbyniadau. Nodwyd problemau penodol yng Nghymru o ran pecynnu gofal, cyfleusterau camu-i-lawr a thai. Mae gan Gymru dai o ansawdd arbennig o wael, sydd yn eu tro yn arwain at gyfraddau cwympiadau uchel ac iechyd gwaeth ymhlith pobl hŷn. Mae gan Gymru hefyd broblemau hirsefydlog o ran llif ysbyty a rhyddhau pobl oedrannus o ysbytai i'r gymuned.

Mae gweithwyr achos yn gweithio gyda staff y GIG i nodi cleifion perthnasol a gwneud addasiadau/atgyweiriadau cartref amserol. Mae asesiad cartref hefyd yn digwydd ar ôl rhyddhau, gyda chyngor ar gwympiadau a chyngor/gwaith diogelwch yn y cartref, cymorth tai parhaus, gwiriadau budd-daliadau lles, ffynonellau elusennol, grantiau tai, therapi galwedigaethol cymunedol a chyngor ynni. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys staff wardiau cleifion mewnol y GIG, y sector gwirfoddol a chymunedol, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac yn ddiweddar mae wedi ehangu'n uniongyrchol i rai adrannau achosion brys.

## Sut mae'n berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Mae hon yn rhaglen arloesol sydd wedi deillio o beilot bach, mewn ymateb i fater datgysylltiad system hirsefydlog rhwng iechyd a thai ac sydd wedi llwyddo i sicrhau ymrwymiadau ariannu hirdymor yn dilyn gwerthusiadau cadarn, parhaus a ddangosodd arbedion cost o ran buddsoddiad wedi'i ailgyfeirio. Mae'n cynnwys gwaith partneriaeth amlasiantaeth gwirioneddol, gan gynnwys gwaith yn y GIG a defnyddio cyrff ar lefel ranbarthol. Cafodd y cynllun hwn, a llawer o'r galluogwyr, sylw helaeth yn ein huwchgynhadledd.

Mae'r prosiect yn cyflwyno ystod o eitemau sy'n ymwneud â'n themâu tai, ynni, iechyd a gofal.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Yn 2021-22 yn unig, arbedodd y rhaglen 25,520 o ddiwrnodau gwely a haneru'r gyfradd aildderbyn (mae gan y gwasanaeth gyfradd aildderbyn o 5.7% o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o rhwng 12-15%) ar gyfer y rhai y mae'n eu gwasanaethu, sy'n rhoi elw ar fuddsoddiad o £8.60 am bob £1 a wariwyd.

Cafwyd mynediad at symiau sylweddol o arian ac mae galw cynyddol wedi'i reoli'n dda gydag adborth cadarnhaol iawn gan gleifion a staff.

Rhwng Ionawr 2023 a Mawrth 2023 (Ch4) cyflawnodd y canlynol:

- 2415 o atgyfeiriadau
- 941 o Wiriadau Cartref Iach
- 234 o geisiadau budd-dal llwyddiannus (mae rhai o'r rhain yn geisiadau o Ch3 na chawsant eu cymeradwyo tan Ch4), cyfanswm o £941,196 (tua £4022 o gynnydd mewn incwm blynyddol fesul claf)

- 2862 o welliannau cartref gwerth £867,159
- Arbedwyd 11354 o ddiwrnodau gwely

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Roedd galluogwyr allweddol yn cynnwys datblygu a defnyddio canllawiau arfer gorau, defnyddio safonau ansawdd, hyfforddiant o ansawdd uchel i weithwyr achos, casglu ac ymgorffori adborth gan bartneriaid, codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth (er enghraifft trwy fynychu sesiynau cynefino staff ward) a chydleoli ar safleoedd ysbytai. Yn ogystal, ategwyd gwaith partneriaeth cryf ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol gan dystiolaeth werthuso gadarn, a fu'n allweddol i ehangu'r gwaith o'r cynllun peilot cryf cychwynnol.


Mae pwysigrwydd dolenni cyfathrebu ac adborth wedi bod yn hanfodol i ennill ymddiriedaeth staff ysbytai. Wrth i'r gwasanaeth ymwreiddio fwy, mae nifer ac ansawdd yr atgyfeiriadau yn cynyddu. Mae adborth wedi dangos agweddau unigryw y gwasanaeth. Er enghraifft, gweithwyr achos yn tynnu lluniau o gartrefi cleifion i'w hychwanegu at asesiadau therapi galwedigaethol yn yr ysbyty, gan ddarparu cyd-destun gwerthfawr ac ychwanegu gwerth at asesiadau therapi galwedigaethol, neu'r ffaith y gall y gwasanaeth symud dodrefn (nid yw staff gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol yn gwneud hyn bellach, gan arwain at oedi posibl).

Mae gwersi ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ehangu presenoldeb ffisegol, gan gynnwys mewn adrannau achosion brys. Maent yn ceisio integreiddio'r gwasanaeth hyd yn oed yn well mewn ymateb i drosiant staff ward uchel, staff asiantaeth a chylchdroi staff mewn ysbytai. Un o'r ffyrdd o wneud hyn yw ceisio integreiddio â chanllawiau cynllunio rhyddhau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Yn olaf, mae'r rhaglen hefyd yn ceisio sicrhau cyllid sefydlog a hirdymor pellach a gwella rhannu data a monitro ar lefel strategol.

## Gwybodaeth bellach

"Mae ansawdd [rhyddhau] yn llawer gwell ers i ni gael Gofal a Thrwsio oherwydd mae llawer mwy o wiriadau'n cael eu cynnal nag y byddem wedi'u gwneud ac wedi gallu eu gweithredu o'r blaen. Os oes gennych bobl gyda, dyweder, problemau ar y frest gyda lleithder ac ati mewn eiddo, oherwydd y dyma'r eiddo sydd wedi newid erbyn hyn mewn gwirionedd, ac mae hyn yn eu hatal rhag cael eu hailddderbyn eto yn y dyfodol oherwydd cyflwr y tai. Felly, mae'n sgil-effaith ataliol" - Staff ward

https://careandrepair.org.uk/projects/hospital-to-a-healthier-home/



# Astudiaeth Achos 5

## Cadw’n Gynnes, Cadw’n Iach yn Sir Benfro (Bwyd, ynni a thai)

### Beth?

Mae Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach (KWKW) yn Sir Benfro yn rhaglen gymorth a sefydlwyd ym mis Hydref 2022 ar gyfer trigolion Sir Benfro yn ystod yr argyfwng costau byw. Gwnaed gwaith i gysylltu pobl â gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau lleol i'w helpu trwy gydol misoedd oeraf y flwyddyn, mewn ymateb i'r argyfwng Costau Byw. Ledled Sir Benfro, ymatebodd cymunedau a sefydliadau i'r argyfwng gan gynnig ystod o atebion lleol, gyda chefnogaeth y rhaglen.

Gwnaethpwyd Hyb Cymunedol cysylltiedig Sir Benfro yn bwynt cyswllt unigol i unrhyw un sy’n profi caledi ariannol neu a hoffai gael gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael yn eu hardal fel rhan o’r rhaglen Cadw’n Gynnes, Cadw’n Iach. Roedd y datrysiadau lleol a grëwyd yn cynnwys Mannau Cymunedol Croeso Cynnes, pwynt cyswllt sengl, darpariaeth prydau poeth, talebau ynni a thanwydd, pecynnau cynnes, danfon peiriannau ffrio aer, cyllid dewisol ar gyfer ychwanegiadau tanwydd (gweithio gyda phartneriaid preifat), cyngor ar dlodi tanwydd, cynyddu incwm cymorth, banciau dillad babanod, a banciau bwyd anifeiliaid anwes.

## Sut mae'n berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Adeiladodd y gwaith ar bartneriaeth amlasiantaeth, traws-sector sefydledig gyda rôl gydgysylltu i Gyngor Gwirfoddol Sirol Sir Benfro. Roedd partneriaid yn cynnwys yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol/cymunedol. Roedd gan y Cyngor eisoes brofiad o ddosbarthu arian lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth i arian ddod i mewn ar gyfer gwaith. Amlygwyd y defnydd o un pwynt cyswllt a mannau cymunedol canolog (gan gydleoli nifer o atebion) yn gyson fel arfer da yn ein huwchgynhadledd Costau Byw Cymru Gyfan.

Yn benodol, ceisiai'r gwaith hwn ymdrin â bwyd, ynni a thanwydd (gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion tanwydd gwledig megis dibynnu ar wresogi olew), ac incwm/dyled. Aeth yr atebion i'r afael â llawer o agweddau o'r rhain ac roedd rhai agweddau, megis dosbarthiad peiriannau ffrio aer, yn ceisio defnyddio dull cynaliadwy, hirdymor o arbed costau.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Ar hybiau cynnes, darparwyd cyllid grant i 73 o Fannau Cymunedol Croeso Cynnes ac fe elwodd tua 15,000 o bobl o'r rhain gyda dros 500 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn y ddarpariaeth ar wahanol adegau. Darparwyd dros 12,000 o brydau poeth yn y mannau cymunedol hyn.

O ran tanwydd ac ynni, rhoddwyd dros 700 o dalebau ynni a dosbarthwyd tua 600 o 'Becynnau Cynnes'. Dosbarthwyd tua 260 o ffriwyr aer a 25 o ychwanegiadau tanwydd gwerth £250 i olew gwresogi.

Yn olaf, darparwyd cyngor/cymorth ar incwm a thlodi tanwydd i 521 o bobl a arweiniodd at amcangyfrif o £12,000 mewn biliau is neu gyllid a gyrchwyd i gleientiaid. Cefnogwyd 40 o bobl hŷn i uchafu eu hincwm a chyrchwyd dros £11,000 mewn grantiau/buddiannau ychwanegol. Derbyniwyd dros 2000 o alwadau gan Hyb Cymunedol Sir Benfro a dosbarthwyd 140,692 o daflenni i gartrefi ynghyd â miloedd o ymweliadau â thudalennau gwe a rhyngweithiadau cyfryngau cymdeithasol.

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Elwodd y cynllun ar fformat syml, canolog gan ddefnyddio partneriaeth amlasiantaeth sefydledig gyda hanes blaenorol cryf. Roedd hefyd yn gallu gwneud defnydd o ddiddordeb gwirfoddolwyr sylweddol ac roedd y niferoedd uchel o wirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth hollbwysig. Roedd y cynllun hefyd yn gweithio'n dda ar draws sectorau gyda chyngor gwirfoddol mewn rôl gydlynu. Soniwyd am y rhain i gyd fel awgrymiadau yn ein huwchgynhadledd Costau Byw Cymru Gyfan, ac roedd y gwaith yn cwmpasu ein themâu incwm a dyled, tanwydd ac ynni.

Roedd gwersi ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ystyried defnyddio gweithwyr proffesiynol ymroddedig ac atgyfeiriadau i rai mathau o gymorth a chyngor ariannol, gan helpu i fynd i'r afael ag anawsterau i gael mynediad at fudd-daliadau penodol neu gyllid dewisol. Datblygwyd y cynllun yn gyflym ac argymhellwyd cynllunio ymlaen llaw pellach yn y dyfodol o ran ymarferoldeb cyflenwi. Er enghraifft, cododd rhai problemau gydag ychwanegiadau olew tanwydd a gwresogi, o safbwynt defnyddio talebau a danfoniadau gan gwmnïau sector preifat. Cafodd y materion hyn eu datrys wedyn gyda sgyrsiau pragmatig ac ymarferol, ond nodwyd y gallai hyn fod wedi digwydd cyn y cynllun drwy gyfathrebu â’r cwmnïau yn gynharach.

## Gwybodaeth bellach

“Yn ystod yr “argyfwng costau byw” hwn, bu’n gynyddol anodd i gleientiaid allu cael mynediad at yr opsiwn mwyaf addas i ddelio â’u dyledion oherwydd y costau sydd ynghlwm pan mai ansolfedd yw’r opsiwn mwyaf addas. Hefyd, bu’n anoddach cael cymorth elusennol i dalu costau ansolfedd. Mae gorchmynion gostwng dyled a methdaliad yn cynnig dechrau newydd i bobl na allant ad-dalu eu dyledion. Ond mae ffioedd ymgeisio ymlaen llaw yn golygu bod rhai pobl yn methu eu fforddio. Mae data diweddar Cyngor ar Bopeth yn dangos bod gan 50% o'r bobl rydyn ni'n eu helpu gyda dyled gyllideb negyddol - sy'n golygu nad yw eu hincwm hyd yn oed yn talu biliau a gwariant hanfodol. Mae argaeledd cyllid gan KWKW wedi sicrhau bod cleientiaid yn gallu cael mynediad at yr opsiynau mwyaf addas iddynt ddelio â’u dyledion er mwyn gallu dechrau o’r newydd ac nad ydynt yn cael eu heithrio oherwydd costau” - *Aelod o staff*

*https://www.pavs.org.uk/wp-content/uploads/2023/06/KWKW-Report-June-2023-V2.pdf*



# Astudiaeth Achos 6

## Rhewgelloedd Cymunedol Menter Môn (Bwyd, ynni a thai)

### Beth?

Wrth i'r argyfwng costau byw gael effaith, nod y prosiect yw helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy ddarparu prydau o safon am ddim mewn rhewgelloedd cymunedol ar draws yr Ynys. Cyflwynwyd hyn trwy brosiect Neges, ac mae Menter Môn, Cyngor Môn yn cydweithio i stocio deg rhewgell mewn deg hyb cymunedol (ar agor yn wythnosol) ar draws yr ynys (yn canolbwyntio ar ardaloedd gwledig difreintiedig) gyda phrydau parod yn cael eu cynhyrchu'n lleol gan fusnesau lleol. Mae gan bob hyb arweinydd cymunedol lleol sy'n helpu i nodi unigolion penodol i'w targedu yn y gymuned leol ac i gydlynu danfoniadau personol os oes angen.

Gwnaed hyn os y nodwyd tlodi bwyd fel problem leol hysbys, ac mae'r cynllun yn defnyddio prydau meicrodon i oresgyn problemau nodweddiadol gyda dosbarthu bwyd, megis pobl heb y gallu i deithio, neu goginio a gweithio gyda chynhwysion oherwydd costau, diffyg gwybodaeth, anabledd ac yn y blaen.

## Sut mae hyn yn berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â'n thema bwyd ac roedd yn ymateb i anghenion lleol o ran ansicrwydd bwyd. Mae'n amlygu gwaith partneriaeth helaeth rhwng cymunedau, awdurdodau lleol, elusennau a busnesau preifat lleol i gefnogi'r gymuned, thema a gododd dro ar ôl tro yn ein huwchgynhadledd. Yn olaf, defnyddiwyd hybiau cymunedol lleol fel pwyntiau cyswllt hygyrch, gan adeiladu ar waith presennol gan yr awdurdod lleol a mannau cynnes cymunedol.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi dosbarthu 16,000 o brydau bwyd ers Ionawr 2023, gan gynnwys hyd at 12,000 o brydau mewn un cyfnod o 12 wythnos, gyda danfoniadau bwyd yn aml yn cael eu dosbarthu'n llawn o fewn ychydig oriau yn y canolfannau. Gwerthuswyd y cynllun yn allanol gan gwmni ymchwil a adroddodd ystod o adborth cadarnhaol trwy arolygon a chyfweliadau. Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn canmol yn fawr ansawdd y bwyd, rhwyddineb/cyfleuster casglu, ac ethos y prosiect ac roeddent yn cefnogi ei barhad.

Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi clywed am yr hybiau naill ai ar lafar neu gan wirfoddolwr yn y ganolfan ac yn defnyddio'r mannau cymunedol perthnasol yn rheolaidd. Roedd sbectrwm o grwpiau oedran yn defnyddio'r rhewgelloedd, ond roedd nifer anghymesur o uchel o bobl 35-49 oed a 65+ oed yn defnyddio'r gwasanaeth. Roedd y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael trafferth gyda chostau bwyd uchel ac yn nodi arwyddion o ansicrwydd bwyd. Nid oedd y rhan fwyaf wedi defnyddio banciau bwyd yn ddiweddar (gan nodi mynediad a stigma) gan awgrymu y cyrhaeddwyd grŵp newydd.

Roedd buddion ychwanegol y cynllun yn cynnwys adroddiadau am well cymdeithasu a chydlyniant cymunedol o amgylch yr hybiau a'r hybiau hefyd yn hwyluso cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth a chefnogaeth, megis canolfannau cynnes, ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed.

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Roedd galluogwyr allweddol yn cynnwys ymateb targededig i angen lleol a'r defnydd o fannau cymunedol presennol ac arweinwyr fel adnoddau. Roedd hefyd yn elwa o ddefnyddio fframwaith a rhaglen awdurdod lleol presennol ar ffurf Menter Môn. Roedd gweithio mewn partneriaeth â busnesau ac elusennau lleol yn hanfodol i lwyddiant a hyfywedd y cynllun. Roedd hepgor unrhyw brawf modd neu wiriadau cymhwyster hefyd wedi helpu i gael gwared ar stigma a chyflymu'r broses o gyflwyno a chyflenwi. Yn olaf, roedd y defnydd o wirfoddolwyr lleol ac arweinwyr cymunedol gydag ymreolaeth uchel yn caniatáu i'r canolfannau fod yn ymatebol ac ymaddasol iawn ac i wneud newidiadau'n gyflym, gyda dysgu yn cael ei rannu'n aml wedi hynny.

Canfu'r gwerthusiad fod problemau cysondeb o ran amseroedd danfon a oedd yn effeithio ar ddibynadwyedd y gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ac roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dal i gael trafferth cael mynediad i'r hybiau. Cafwyd awgrymiadau dro ar ôl tro y gallai hyb fod yn fuddiol yng Nghaergybi ei hun, er gwaethaf ei statws trefol, oherwydd lefel uchel yr angen yno. Mynegodd rheolwyr yr hybiau bryderon y gallai rhai grwpiau ac unigolion ddal i fod ar eu colled ac awgrymwyd y gallai defnyddio data lleol, ynghyd â chasglu data gwell yn yr hybiau, hwyluso gwell targedu.

Roedd awgrymiadau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ehangu'r cynllun trwy ddefnyddio prosiectau cymunedol cysylltiedig eraill, megis cynlluniau cyfnewid bwyd a dosbarthiadau coginio cymunedol.

## Gwybodaeth bellach

"Mae'n syniad gwych ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ein hardal, ond doeddwn i ddim yn meddwl bod ansawdd y prydau yn wych... byddai'n dda pe bai modd cynnwys rhai llysiau" - *Defnyddiwr gwasanaeth*

[https://www.mentermon.com/en/](https://www.mentermon.com/en/)



Community freezers combat food poverty



# Astudiaeth Achos 7

## Cymdeithas Tai Merthyr Tudful (Incwm a dyled; iechyd meddwl a llesiant)

### Beth?

Mae Cymdeithas Tai Merthyr Tudful yn sefydliad dielw sefydledig sy’n darparu tai yn yr ardal a chanddi hanes hir o gefnogi tenantiaid. Mae'r gymdeithas wedi cael tri chynllun diweddar yn ymwneud â chostau byw.

Arweiniodd Tŷ Pantri at iddyn nhw weithio gyda Fareshare Cymru a Browns Fresh Fruit and Veg Wholesalers, gan ddarparu mynediad fforddiadwy a danfon bwyd i gartrefi’r rhai sy’n archebu o’r gwasanaeth. Yma, dosbarthwyd bocsys o hanfodion cartref a ffrwythau a llysiau ffres i gartrefi cwsmeriaid. Dechreuodd hyn i ddechrau yn ystod pandemig Covid-19 ond roedd yn defnyddio adnoddau sylweddol. Felly bu'r gymdeithas yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol lleol sydd wedi cynnal y cynllun ers hynny.

Dechreuodd 'Fit and Fed' trwy bartneriaeth â Street Games Cymru yn ôl yn 2017. I ddechrau, sesiwn beilot oedd, a ariannwyd drwy Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morganwg ac a gydlynwyd gan Weithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful. Yna sefydlwyd wyth safle ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref, lle darparwyd chwaraeon, gweithgaredd corfforol, celf a chrefft a lle darparwyd prydau maethlon. Roedd nifer o bartneriaethau elusennol lleol yn allweddol i ddarpariaeth barhaus. Ar ddiwedd 2021, galluogodd cais llwyddiannus i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol iddyn nhw ehangu’r prosiect i 15 o safleoedd a chyflenwi’r prosiect am o leiaf tair blynedd arall.

Mae Clyd a Chynnes yn gynllun ariannu sy'n caniatáu cymorth ariannol a dull cyfannol o fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw. Mae'n cynnwys talebau gwresogi hanfodol i denantiaid sy'n cael trafferth talu eu biliau gwresogi yn ogystal â pharseli bwyd hanfodol, glanhau a phethau ymolchi. Yn ogystal, mae wedi galluogi'r gymdeithas i ddarparu sesiynau Clyd a Chynnes/Cosy and Warm (gwersi coginio'n araf) a pharseli cynnes i'r tenantiaid mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, fel y nodwyd gan dimau Tai, Cynnal a Chadw a Rhent. Yn olaf, buont yn gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau am Waith a Mwy i gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a Chadw Cymru'n Daclus ar gyfer Siop Gyfnewid, lle cafodd dillad, teganau a llyfrau eu cyfnewid i'w hatal rhag mynd i safleoedd tirlenwi ac i ddarparu modd fforddiadwy o gael mynediad at rai dillad o safon.

## Sut mae'n berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Soniwyd droeon yn ein gwaith hyd yma am gymdeithasau tai sydd â nifer o nodweddion cadarnhaol, gan gynnwys sylfaen gymunedol, cael eu llywio gan anghenion lleol, nodi a chefnogi tenantiaid agored i niwed, a gweithio'n agos gyda phartneriaid statudol a'r sector gwirfoddol/cymunedol. Cynlluniodd y gymdeithas werthusiadau hefyd ac yn unol â hynny roedd yn gallu dangos effeithiau, gan gynnwys trwy ddefnyddio mesuriadau gwerth cymdeithasol. Yn olaf, llwyddodd y cynlluniau i fynd ati'n rhagweithiol i gaffael sawl ffynhonnell ariannu ychwanegol, gan gynnwys rhai a oedd yn rhoi sicrwydd tymor hwy.

Roedd y gwaith yn torri ar draws sawl thema mewn modd cyfannol bwriadol, gan gynnwys bwyd, ynni, incwm ac iechyd meddwl a llesiant. Yn y pen draw, roedd y rhain i gyd yn defnyddio ffocws ar dai.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Ar gyfer dau o'r prosiectau, defnyddiwyd Banc Gwerth Cymdeithasol HACT ac arolygon a chanlyniadau penodol i ddangos effaith gymdeithasol y prosiectau hyn. Ar gyfer Fit & Fed, defnyddiwyd Cyfrifiannell Iechyd Meddwl HACT hefyd i ddangos yr effaith ar iechyd meddwl.

Ar gyfer y Tŷ Pantri, defnyddiwyd y canlyniad "gallu cynilo'n rheolaidd" ym Manc Gwerth Cymdeithasol HACT ac, yn ôl hyn, gwerth cymdeithasol y prosiect hwn oedd £36,366.

Dros y flwyddyn ariannol 2022-23, darparodd prosiect Fit and Fed Merthyr Tudful 219 o sesiynau am ddim i blant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref. Mae 2300 o wahanol blant a phobl ifanc wedi cael mynediad at y prosiect 4397 o weithiau. Trwy'r prosiect, darparwyd 4397 o brydau bwyd i'r plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r darpariaethau. Mae wedi darparu 54 o achrediadau i bobl ifanc mewn Hylendid Bwyd Lefel 2, Arweinwyr Chwaraeon Lefel 1, Hyfforddiant Cynaliadwyedd a Phasbort Hylendid Bwyd. Rydym wedi darparu un cwrs preswyl i helpu i ddatblygu sgiliau, hyder a dyheadau'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r prosiect.

Trwy ddefnyddio'r Gyfrifiannell Gwerth Cymdeithasol a'u Cyfrifiannell Iechyd Meddwl, dangoswyd y canlyniadau canlynol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno:

- Hyfforddiant cyffredinol ar gyfer swydd (£115,058)
- Gwirfoddoli rheolaidd (£41,503)
- Ymarfer Corff Ysgafn Aml (£388,141)
- Llesiant Meddyliol (£987,359)

I grynhoi, am y £94,383 a ddyfarnwyd y flwyddyn, mae pob punt wedi dychwelyd £16.23 mewn gwerth cymdeithasol. Cafodd y prosiect hefyd effaith gadarnhaol ac amlwg ar lesiant meddwl.

Mae Clyd a Chynnes wedi derbyn adborth cadarnhaol gan denantiaid hyd yn hyn, gyda phwyslais annisgwyl ar ba mor ddefnyddiol ydyw o ran brwydro yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Nodwyd bod cysylltiadau sefydledig a gwaith partneriaeth helaeth yn allweddol, yn ogystal â'r gallu i dynnu ar brofiad o wneud cymwysiadau bwyd lleol yn llwyddiannus. Cafodd cydgynhyrchu le amlwg ym mhob un o'r cynlluniau a amlygir yma, gydag anghenion y gymuned yn cael eu nodi cyn dechrau, a chynnal y ffocws ar themâu costau byw perthnasol. Roedd gan bob prosiect gynllun a gwerthusiad clir, y glynwyd atynt i raddau helaeth.

Roedd angen addasiadau; i ddechrau, rhoddwyd talebau gwerth £30 i helpu gyda chostau ynni, ond cynyddwyd hyn hyd at £100. Mae'r sesiynau coginio araf wedi'u rhannu'n flociau o chwe wythnos fel nad yw'r tîm yn gorymestyn ei hun a bod amser i werthuso. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r defnyddwyr gwasanaeth, mae'r amseroedd wedi newid fel bod yna bryd bwyd maethlon poeth yn barod ar gyfer eu plant pan fyddant yn cyrraedd adref o'r ysgol y diwrnod hwnnw. Cyrhaeddwyd y capasiti ar rai adegau gyda rhai prosiectau, megis y Tŷ Pantri, a drosglwyddwyd wedyn i bartneriaid perthnasol.

Mae cynnal cyllid, nodi ffynonellau ariannu newydd, a gorfod gwneud ceisiadau am gyllid yn rheolaidd yn parhau i fod yn her allweddol. Mae cyfleoedd i gysylltu ag awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd wedi'u nodi fel uchelgais ar gyfer y dyfodol.

## Gwybodaeth bellach

“Mae'r gwasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn ein helpu ni'n sylweddol fel teulu. Er nad fi yw eich tenant, rydych chi'n fy nhrin fel yr wyf, ac yn fy helpu cymaint gyda hyn.”

“Fel tŷ, dydyn ni erioed wedi bod yn y sefyllfa hon o’r blaen, lle rydyn ni’n dau bellach allan o waith, a sut mae hyn wedi taro cyllid ein teulu. Mae'r pantri hwn yn fendith i ni. Trwoch chi a Hope, gallwn fforddio bwyta a chael diet cytbwys.”

“Rydyn ni'n cael gwell gwerth am arian gyda chi oherwydd mae gennym ni fwy o ddewis gyda'ch bocsys hanfodol, ac wrth gwrs, mae'ch ffrwythau a'ch llysiau yn ffres ar y diwrnod. Os byth y gallaf wirfoddoli i helpu i wireddu’r prosiect, rhowch wybod i mi.”

“Fyddwn i ddim yn gwybod beth fyddwn i’n ei wneud heb hyn, mae’n help mawr i mi. A chi yw'r unig berson dwi'n ei weld ar ddydd Iau. Diolch.” - *Defnyddwyr gwasanaeth*

https://www.mtha.org.uk/



# Astudiaeth Achos 8

## Cyllidebu cyfranogol yng Ngwent (Iechyd meddwl a llesiant)

**Beth?**

Ffurfiwyd bwrdd gwasanaeth cyhoeddus Gwent (BGC), sef partneriaeth amlasiantaeth ranbarthol, drwy uno diweddar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus cyfansoddol, a'r diddordeb diweddar yn y defnydd o gyllidebu cyfranogol. Mae gan y math hwn o gyllidebu eisoes etifeddiaeth gref ar gyfer dyfarnu grantiau cymunedol yn y DU ac ehangwyd ei ddefnydd yn yr Alban yn ddiweddar. Mae'n broses arloesol sy'n galluogi trigolion i gael pwerau gwneud penderfyniadau uniongyrchol dros ddyrannu adnoddau yn eu cymunedau mewn ffordd sy'n deg ac yn dryloyw.

Yng Ngwent, mae'r tîm iechyd cyhoeddus lleol wedi sefydlu rhwydweithiau llesiant integredig a ariennir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, sef partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Mae gan bob tref/dinas ei rhwydwaith ei hun ac fe'i cefnogir i gael mynediad at ffynonellau cyllid amrywiol, gan gynnwys awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd lleol a Llywodraeth Cymru. Mae cyllidebu cyfranogol yn gweithredu fel gwrthbwynt i gylchoedd o anghydraddoldeb, ymddiriedaeth gyhoeddus isel a dyhead cymunedol gwael sy'n amlwg mewn llawer o ardaloedd difreintiedig Gwent.

Cynhaliwyd nifer o ymarferion cyllidebu cyfranogol yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, naill ai drwy gontract allanol gydag arbenigwyr neu drwy eu cynnal yn fewnol gan dimau awdurdodau lleol.

Yn gyffredinol, cynhaliwyd cynlluniau peilot bach yn cynnwys 2-3 rownd ariannu gyda phleidleisio gan y cyhoedd ar wahanol adegau i helpu i benderfynu ar ddyfarnu cynigion. Mae prosesau pleidleisio yn cynnwys defnyddio e-bost/gwefannau a llwyfannau pleidleisio rhithwir yn ogystal â digwyddiadau marchnata personol gyda phleidleisio symbolaidd. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau peilot yn ceisio defnyddio egwyddorion atal a hirdymor ac yn cynnwys cyfranogiad cymunedol mewn cynllunio gydol yr amser, gan sianelu'n fwriadol y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Sut mae'n berthnasol i'n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Ar gyfer y prosiectau a ariannwyd yn benodol, roedd amrywiaeth o bynciau. Fodd bynnag, roedd prosiectau'n canolbwyntio'n bennaf ar wariant cyfalaf ar adeiladau, gweithgareddau ac adnoddau cymunedol. Roedd llawer o'r rhain yn eu tro yn ymwneud â'n themâu costau byw ar fwyd, iechyd meddwl a llesiant. Crybwyllwyd BGC Gwent a chyllidebu cyfranogol yn aml yn ein huwchgynhadledd.

Mae'r cyllidebu cyfranogol a gwaith BGC Gwent yn ei gyfanrwydd hefyd yn ymwneud â sawl pwynt a gododd o'n digwyddiadau diweddar gan gynnwys yr angen i weithio mewn partneriaeth, integreiddio cyllidebau, cyllid tymor hwy, defnydd o'r sector gwirfoddol a chymunedol, a chydgynhyrchu gwirioneddol gyda ffocws ar anghenion lleol.

## Beth oedd y canlyniadau a'r effeithiau?

Ymgymerwyd ag adborth ac ymgysylltiad ansoddol gan ddarparwr allanol fel rhan o werthusiad cynlluniedig, a chanfuwyd yn fras fod y dull o weithio gyda mwy o rymuso a chyfranogiad cymunedol a mwy o wariant sy'n ffocysu ar y gymuned yn ganlyniadau allweddol.

Roedd adborth penodol gan y cyfranogwyr yn cynnwys bod cyllidebu cyfranogol yn cefnogi achosion lleol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gymuned (58% yn cytuno'n gryf), gwell cysylltiadau cymdeithasol ac ewyllys da yn y gymuned (52% yn cytuno'n gryf), wedi annog unigolion i chwarae rhan weithredol yn y gymuned (51% yn cytuno'n gryf), yn annog cymuned fwy gofalgar, cefnogol (50% yn cytuno'n gryf) ac wedi cyfrannu at i'r gymuned fod yn lle gwell i fyw, gweithio, dysgu neu chwarae (48% yn cytuno'n gryf).

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Roedd sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus unedig gyda gwaith partneriaeth cryf yn alluogwyr allweddol, ynghyd â'r sylfaen a ddarparwyd gan rwydweithiau llesiant integredig lleol gyda ffynonellau cyllid lluosog. Roedd galluogwyr eraill a nodwyd yn cynnwys cydgynhyrchu, cyfranogiad cymunedol, defnyddio digwyddiadau wyneb yn wyneb, a systemau pleidleisio hygyrch. Yn olaf, cafodd y gwaith fudd o fframwaith gwerthuso unedig a chadarn a gynhaliwyd yn allanol. Crybwyllwyd llawer o'r galluogwyr hyn yn gyson yn ein huwchgynhadledd.


Roedd y rhwystrau a gafwyd yn cynnwys pryderon ynghylch y symiau ariannu bach a'r risg o allgáu digidol, yn enwedig o ran pleidleisio. Yn ogystal, nid oedd un awdurdod lleol yn gallu cymryd rhan oherwydd aflonyddwch pandemig a diffyg trefniadau llywodraethu i gefnogi'r gwaith ar y pryd.

Yn y dyfodol, mae cynlluniau i ddefnyddio mwy o gydgynhyrchu a gwella cyfran hygyrchedd gyda thempled model effeithiol yn cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio ar draws yr ardal sydd hefyd yn cynnwys dysgu ar y cyd. Bydd lefelau ariannu hefyd yn cynyddu a bydd gwerthusiad pellach yn cael ei gynllunio a'i gynnal.

## Gwybodaeth bellach

"Mae pobl bellach yn cymryd llawer mwy o falchder yn y maes rygbi. Gwariwyd rhywfaint o'r cyllid ar feinciau, fel y gall pobl ddod yno i eistedd, yn ogystal â gweithio yn yr ardd. Roedden ni eisiau darparu rhywbeth i'r gymuned, yn enwedig ar ôl ynysigrwydd Covid. Dim ond iard gefn sydd gan lawer o'r tai yn lleol, felly mae pobl wir yn gwerthfawrogi'r ardd a mynediad at fannau gwyrdd. Mae cefnogaeth y gymuned leol yn bwysig iawn. Mae pobl yn dod atom ni ac yn dweud 'Fe wnes i bleidleisio drosoch chi.' Mae hynny'n wych." - *Staff Cyngor*

https://www.gwentpsb.org/cy/



# Astudiaeth Achos 9

## Prosiectau bwyd Bro Morgannwg (Bwyd, ynni a thai)

### Beth?

Mae'r astudiaeth achos hon yn cynnwys dau gynllun lleol. Roedd y cyntaf yn cynnwys grŵp llywio aml-sector yn archwilio ansicrwydd bwyd fel problem leol yn ardal wledig Llanilltud Fawr o dan Brosiect Bwyd Llanilltud Fawr. Roedd gan yr ardal eisoes bantri bwyd wythnosol llwyddiannus yn mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd a gwastraff bwyd (mae defnyddwyr yn gwneud taliad o £5 ac yna'n gallu cymryd 10 eitem o'u dewis ynghyd â ffrwythau a llysiau ffres) a oedd yn cael ei redeg gan Wasanaeth Gwirfoddol Morgannwg CGS lleol a chaffi unigrwydd cysylltu â'r gymuned, y 'Chatty Café', a redir gan grŵp trydydd sector 'More in Common' Llanilltud Fawr. Parhaodd y grŵp llywio i gynhyrchu syniadau a gweithio gyda phartneriaid gan ddefnyddio data lleol (fel arolygon mapio a dulliau ansoddol) a chyllid. Nawr, mewn ymateb i anghenion lleol sydd newydd eu nodi, mae'r grŵp yn sefydlu hyb 'Mwy na bwyd' misol gyda gwasanaethau cymorth eraill yn cael eu cydleoli (gwella cartrefi, cyngor ar heneiddio'n iach, cymorth ariannol, canolfan cyngor ar bopeth, gofal plant, a chyngor ar dai). Maent hefyd yn datblygu gwasanaethau allgymorth posibl ar gyfer y pantri bwyd mewn ardaloedd anos eu cyrraedd sy'n adlewyrchu heriau gwledig yr ardal, ac yn hyrwyddo'r rhaglenni 'cychwyn iach' a 'bwyd a hwyl' yn ogystal â chyfleoedd garddio cymunedol lleol.

Yn ail, gwelwyd Grŵp Datblygu 'Cornel Cadog', grŵp llywio cymunedol yn y Barri, yn sefydlu Big Bocs Bwyd cyntaf Cymru, pantri cymunedol lle gall pobl gael mynediad at fwyd a chynnyrch hylendid ar sail 'talu fel y mynnwch' yn Ysgol Gynradd Tregatwg.

Mae’r prosiect wedi esblygu’n ddiweddar i gynnwys golchdy cymunedol, siop cyfnewid gwisg ysgol, a chaffi Bwyd Da lle mae plant yr ysgol yn paratoi prydau ar gyfer gwesteion cymunedol gan ymdrin ag unigrwydd, unigedd, a mynediad at fwyd da.

## Sut mae’n berthnasol i’n canfyddiadau costau byw hyd yn hyn?

Amlygodd y gwaith hwn sawl pwynt a ddaeth i’r amlwg yn ein digwyddiadau eraill, gan gynnwys y defnydd o actifiaeth gymunedol ac adnoddau, cyfranogiad dinasyddion, a oedd yn cael eu hysgogi gan angen a data lleol. Mae'n bwriadu cydleoli gwasanaethau mewn hybiau canolog ac roedd y ddau gynllun yn cynnwys cyfranogiad cymunedol eang, gyda'r defnydd o gyfraniadau ariannol bach ar gyfer pantris bwyd gan ddefnyddwyr.

Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio’n bennaf ar ein thema Costau Byw o fwyd, ond gyda buddion amlwg hefyd o ran incwm a dyled, ac iechyd meddwl a llesiant.

## Beth oedd y canlyniadau a’r effeithiau?

Derbyniodd Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr £98,702 mewn cyllid grant i ddatblygu'r gwaith hwn. Dros gyfnod o 3 mis, mae’r Hyb Mwy na Bwyd wedi cefnogi dros 30 o drigolion gydag amrywiaeth o bynciau megis tai, codymau, budd-daliadau, digartrefedd, hawliau ariannol, a gweithgareddau cadw’n heini, ac mae 220-260 o bobl yr wythnos yn elwa o ddefnyddio pantri bwyd cymunedol CF61 yn Llanilltud Fawr. Mae'r Big Bocs Bwyd yn Nhregatwg wedi ailddosbarthu dros 2 dunnell o wastraff bwyd a 7 tunnell o fwyd FareShare mewn 2 fis yn unig.

Mae’r Caffi Bwyd Da yn gwasanaethu 38 o westeion bob wythnos, gan helpu i feithrin cyfeillgarwch rhwng cenedlaethau a datblygu ymdeimlad cryfach o ysbryd cymunedol.

Mae'r cynlluniau hefyd wedi derbyn adborth ansoddol gan ddefnyddwyr. Roedd adborth cynllun Congl Cadog ac Ysgol Tregatwg yn cynnwys uwchsgilio unigolion o ran dealltwriaeth o bwysigrwydd bwyd da, lefelau gwell o lesiant, lefelau is o bryder, a gwell lefelau hyder disgyblion wrth goginio prydau i’w teuluoedd. Mae adborth cynllun cymunedol Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr yn cynnwys datblygu ymdeimlad o berthyn cymunedol, llai o arwahanrwydd cymdeithasol, a thrigolion lleol yn fwy ymwybodol o’r cymorth sydd ar gael, yn enwedig y rhai sy’n aml yn gysylltiedig â phroblemau ehangach ansicrwydd bwyd e.e. tai, dyled, llesiant, cyllid, ac ati.

## Galluogwyr, rhwystrau a gwersi a ddysgwyd

Roedd y galluogwyr allweddol a nodwyd ar gyfer y cynlluniau yn cynnwys defnyddio ymgysylltiad ac adnoddau cymunedol, canolbwyntio ar anghenion a data lleol penodol, ac ymrwymiad i’r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Yn gyffredinol, roedd poblogrwydd a defnydd y cynlluniau yn uwch na'r disgwyl. Mae’r cynllun hefyd yn cysylltu â rhaglen ehangach ‘Bwyd y Fro’, sy’n cynnwys adnoddau a thudalen lanio unigol ar y we.

Ar y dechrau, nid oedd cynllun Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr yn siŵr faint o amser y byddai partneriaid yn gallu ymrwymo i fynychu’r Hyb ‘Mwy na bwyd’ yn rheolaidd a sicrhau bod cysondeb yn y cymorth sydd ar gael. Roedd pryder arbennig o ystyried yr angen i ganiatáu amser i bobl fagu hyder ac ymddiriedaeth ond cawsant eu synnu bod sefydliadau’n gallu gweld budd bod allan yna yn y gymuned a'u bod yn awyddus i ymrwymo i’r sesiynau misol fel rhan o’u rolau presennol.

Ers sefydlu'r Hyb 'Mwy na Bwyd' mae sawl partner newydd wedi cysylltu â'r cynllun yn gofyn am gael mynychu i hyrwyddo eu gwasanaethau cymorth i'r gymuned. Mae'n debyg bod gwasanaethau'n awyddus i fod yn ôl yn y gymuned, yn dilyn y pandemig.

## Gwybodaeth bellach

"Mae'r rhent mor uchel, does dim arian ar ôl. Efallai dim ond £20-£30 yr wythnos am fwyd. Gwerthfawrogir unrhyw gymorth" - *Defnyddiwr gwasanaeth*

https://foodvale.org/ble-fedrai-cael-cymorth/?lang=cy

